# Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 24 Mawrth 2020

Amser y cyfarfod: 10.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6266

## 270(v6)

## 1 Cynnig i atal Rheolau Sefydlog

Dechreuodd yr eitem am 10.00

**NNDM7315** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

1. Yn atal Rheol Sefydlog 12.56(i) a (ii) sy'n ei gwneud yn ofynnol i:

a) Brif Weinidog Cymru ateb cwestiynau llafar unwaith, am hyd at 60 munud, ym mhob wythnos y bydd y Cynulliad yn cynnal Cyfarfod Llawn; a

b) bob un o Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ateb cwestiynau llafar ynglŷn â'u cyfrifoldebau, o leiaf unwaith, am hyd at 45 munud, ym mhob pedair wythnos y bydd y Cynulliad yn cynnal cyfarfod llawn,

fel nad yw'n ofynnol i'r Prif Weinidog, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd ateb cwestiynau llafar yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 24 Mawrth 2020.

2. Yn atal Rheolau Sefydlog 12.20(i), 12.22(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM7316, y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil y Coronafeirws, gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 24 Mawrth 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog - AILDREFNWYD O DDYDD MERCHER 25 MAWRTH

Trosglwyddwyd cwestiynau i'r Prif Weinidog i'w hateb yn ysgrifenedig.

## 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 10.00

## 4 Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru - AILDREFNWYD O DDYDD MERCHER 25 MAWRTH

Trosglwyddwyd cwestiynau i Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru i'w hateb yn ysgrifenedig.

## 5 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd (yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel Gweinidog Pontio Ewropeaidd) - AILDREFNWYD O DDYDD MERCHER 25 MAWRTH

Trosglwyddwyd cwestiynau i’r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd (yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel Gweinidog Pontio Ewropeaidd) i'w hateb yn ysgrifenedig.

## 6 Cwestiynau Amserol

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

## 7 Datganiad gan y Prif Weinidog: Coronafeirws (Covid-19)

Dechreuodd yr eitem am 10.02

## 8 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Coronafeirws (COVID-19)

Dechreuodd yr eitem am 11.27

## 9 Datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Coronafeirws (COVID-19) - i'w gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig

Cyhoeddwyd y datganiad fel datganiad ysgrifenedig.

## 10 Datganiad gan y Gweinidog Addysg: Coronafeirws (COVID-19) - i'w gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig

Cyhoeddwyd y datganiad fel datganiad ysgrifenedig.

## 11 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru: Coronafeirws (COVID-19) - i'w gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig

Cyhoeddwyd y datganiad fel datganiad ysgrifenedig.

## 12 Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Coronafeirws (COVID-19) - i'w gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig

Cyhoeddwyd y datganiad fel datganiad ysgrifenedig.

## 13 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol: Coronafeirws (COVID-19) - i'w gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig

Cyhoeddwyd y datganiad fel datganiad ysgrifenedig.

## 14 Dadl: Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil y Coronafeirws

Dechreuodd yr eitem am 12.31

**NNDM7316** - Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau ym Mil y Coronafeirws i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mawrth 2020 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 15 Dadl: Egwyddorion Cyffredinol y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) - TYNNWYD YN ÔL

Tynnwyd yr eitem hon yn ól.

## 16 Cynnig i gymeradwyo'r penderfyniad ariannol ynghylch y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) - TYNNWYD YN ÔL

Tynnwyd yr eitem hon yn ól.

## 17 Cynnig i atal Rheolau Sefydlog

Dechreuodd yr eitem am 13.46

**NNDM7317** – Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i'r eitem fusnes nesaf gael ei hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth, 24 Mawrth 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 18 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog

Dechreuodd yr eitem am 13.46

**NNDM7318** – Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Busnes y Cynulliad a Gweithdrefnau Brys' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mawrth 2020.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i:

(i) ddiwygio'r Rheolau Sefydlog er mwyn ychwanegu Rheol Sefydlog 34 newydd, fel y nodir yn Atodiad A o adroddiad y Pwyllgor Busnes; a

(ii) yn dirymu Rheolau Sefydlog 6.24A-H a 12.1A-C a dderbyniwyd ar 18 Mawrth 2020.

3. Yn nodi bod y newidiadau hyn yn rhai dros dro, ac y byddant yn peidio â chael effaith pan gaiff y Cynulliad hwn ei ddiddymu, neu pan fydd y Cynulliad yn penderfynu felly, pa un bynnag sydd gyntaf.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 19 Cyfnod pleidleisio

Ni chafwyd Cyfnod Pleidleisio

Daeth y cyfarfod i ben am 13.47

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 31 Mawrth 2020**